# Rhestrau Wrth Gefn

Mae rhai rhaglenni ym Met Caerdydd gan gynnwys hyfforddiant athrawon ac rhai rhaglenni iechyd yn destun targedau gan gyrff achredu/proffesiynol.

Nodir nifer y cynigion a wneir i'r rhaglenni hyn gan ystyried y targedau hyn sy'n newid bob blwyddyn, nifer y ceisiadau sy'n gwneud cais, yn derbyn ac yn gwrthod y cynnig yn ogystal ag nifer y rhai sydd wedi cael cynnig and ydynt yn cwrdd a'r gofynion mynediad pan gaiff canlyniadau eu derbyn.

Fodd bynnag, cydnabyddwn fod nifer o geisiadau y byddwn wedi gwneud cynnig iddynt pe bai lleoedd yn ddiderfyn ac am y rheswm hwn rydym yn cynnig rhestr wrth gefn.

## *Pwy sydd â lle ar y rhestr wrth gefn*

Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni'r gofynion mynediad ac sydd â'r sgôr gryfaf yn y cyfweliad yn derbyn cynnig lle. Ni fydd ymgeiswyr nad oedd eu perfformiad mor gryf ond sy'n dal i sgorio'n uchel yn llwyddiannus ond cânt eu rhoi ar y rhestr wrth gefn.

Caiff rhestrau wrth gefn eu llunio ar ôl i gyfweliadau ddigwydd ac nid yw bod ar y rhestr wrth gefn yn warant y bydd cynnig yn cael ei wneud.

Bydd yr ymgeiswyr hynny nad ystyriwyd bod eu perfformiad yn y cyfweliad yn ddigonol i gael eu hystyried ymhellach ar gyfer y flwyddyn mynediad honno yn aflwyddiannus ac ni fyddant yn cael eu rhoi ar y rhestr wrth gefn.

Ni all ymgeiswyr ofyn am gael eu rhoi ar y rhestr wrth gefn gan nad yw pob un yn bodloni'r meini prawf ac mae'r niferoedd yn amrywio bob blwyddyn yn unol â thargedau, cynigion a wneir a sgoriau cyffredinol.

## *Sut mae ymgeiswyr yn cael gwybod eu bod ar y rhestr wrth gefn*

Hysbysir ymgeiswyr a oes ganddynt le ar y rhestr wrth gefn drwy e-bost gan y Brifysgol. Bydd y penderfyniad a dderbynnir gan UCAS yn dangos fel un aflwyddiannus.

## *Oes angen i mi wneud unrhyw beth ar ôl derbyn cadarnhad fy mod ar y rhestr wrth gefn?*

Nid oes angen i ymgeiswyr gymryd unrhyw gamau ar ôl derbyn cadarnhad os ydynt ar restr wrth gefn oni bai nad ydynt am gael eu rhoi ar y rhestr wrth gefn.

Os nad yw ymgeiswyr am i'w manylion gael eu cofnodi ar y rhestr wrth gefn, mae angen iddynt anfon e-bost at holiderbyniadau@metcaerdydd.ac.uk a gofyn am gael gwared ar eu manylion.

Nid yw cael eich rhoi ar y rhestr wrth gefn yn warant y bydd cynnig yn cael ei wneud yn ddiweddarach yn y cylch ac ni ddylai effeithio ar y penderfyniad i dderbyn neu wrthod cynigion eraill a dderbynnir gan sefydliadau eraill.

Os gellir gwneud cynigion ychwanegol, bydd tîm Derbyniadau Met Caerdydd yn cysylltu ag ymgeiswyr i ofyn a hoffent dderbyn cynnig lle. Ni fydd cynigion yn cael eu diweddaru gydag UCAS nes bod caniatâd wedi'i dderbyn gan ymgeiswyr a bod statws ymgeiswyr yn caniatáu derbyn cynnig.